



Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

Cyhoeddi Ymchwiliad Pwyllgor: cyfranogiad Cymru mewn rhaglenni ymchwil, arloesi a dysgu gydol oes yr Undeb Ewropeaidd

Mae'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol yn cynnal ymchwil i gyfranogiad Cymru mewn rhaglenni ymchwil, arloesi a dysgu gydol oes yr UE am y cyfnod 2007-2013. Rydym yn gwahodd unigolion, grwpiau a sefydliadau sydd â diddordeb neu arbenigedd yn y maes hwn i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig.

Cefndir

Mae nifer helaeth o raglenni'r Undeb Ewropeaidd ar gael ar gyfer 2007-2013, a hynny ar draws ystod eang o feysydd polisi y gallai sefydliadau Cymreig fod yn gymwys i wneud cais ar eu cyfer. Bydd yr ymchwiliad hwn yn adolygu cyfranogiad sefydliadau o Gymru yn y tair rhaglen ariannu fwyaf heblaw am Gronfeydd Strwythurol yr UE a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, sef, y Rhaglen Ymchwil Fframwaith ar gyfer Ymchwil a Datblygiad Saith (FP7); y Rhaglenni Dysgu Gydol Oes, a'r Rhaglen Fframwaith Cystadleurwydd ac Arloesi (CIP). Mae gan y tri chlwstwr hwn o raglenni (gan fod is-raglenni o fewn pob un ohonynt) gyfanswm cyllideb gyfunol o oddeutu €60 biliwn drwy'r UE gyfan ar gyfer 2007-2013.

Mae canolbwyntio ar y rhaglenni hyn yn gyson â ffocws strategol y Pwyllgor ar olynydd Strategaeth Lisbon, sef Strategaeth Ewrop 2020, sy'n rhoi blaenoriaeth i ymchwil, arloesi, addysg a sgiliau.

Y sail resymegol ar gyfer yr ymchwiliad

Wrth i Adolygiad o Gyllideb yr UE gael ei chyhoeddi ar ddechrau'r hydref, bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn lansio dadl ynghylch blaenoriaethau a ffocws Cyllideb yr UE ar gyfer y cyfnod yn dilyn 2013,

ac mae Arlywydd Barroso o'r Comisiwn wedi mynegi ei fwriad clir i seilio'r Gyllideb ar flaenoriaethau Strategaeth Ewrop 2020, a'r prif ddatblygiadau a amlinellwyd ynddi.

Y ddwy brif linell wariant yn Rhagolygon Cyllidol cyfredol yr UE yw'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a Pholisi Cydlyniant yr UE. Yn draddodiadol, mae Cymru wedi elwa'n sylweddol o'r ddwy ffynhonnell hon. Mae pwyllgorau'r Cynulliad wedi craffu ar y rhaglenni ariannol hyn ond ni chafwyd dadansoddiad o gyfranogiad sefydliadau o Gymru mewn rhaglenni a mentrau eraill yr UE sydd ar gael ar gyfer 2007-2013.

Byddai'r ymchwiliad arfaethedig yn galluogi'r Pwyllgor i gael syniad ynghylch lefel cyfranogiad sefydliadau o Gymru yn y rhaglenni dan sylw, gan gymharu hyn â rhannau eraill o'r DU a'r UE. Byddai'r ymchwiliad hefyd yn rhoi cyfle i sefydliadau yng Nghymru sydd wedi cymryd rhan neu sydd yn cymryd rhan yn y rhaglenni hynny i rannu eu profiadau (cadarnhaol a negyddol), ac i ddarparu atborth ar sut y mae'r gweithgareddau amrywiol y maent yn cymryd rhan ynddynt yn sicrhau manteision i Gymru, sut y maent yn cynnig elfen o barhad, a sut y maent yn cyfrannu at flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru.

Cylch gorchwyl

Rydym wedi cytuno ar y cylch gorchwyl a ganlyn ar gyfer ein hymchwiliad:

- Cael dealltwriaeth o'r lefel a'r math o gyfranogiad gan sefydliadau o Gymru yn y Rhaglenni UE canlynol: Rhaglen Ymchwil Fframwaith Saith (FP7); Rhaglenni Dysgu Gydol Oes; a'r Rhaglenni Cystadleurwydd ac Arloesi
- Cymharu cyfranogiad sefydliadau Cymreig â rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd
- Dod o hyd i enghreifftiau llwyddiannus o Gymru
- Cynnig argymhellion polisi i Lywodraeth Cymru ar gyfer ffyrdd o hwyluso cyfranogi pellach yn y rhaglenni hyn
- Amlygu unrhyw agweddau cadarnhaol neu negyddol ar gyfranogi yn y rhaglenni, a bwydo hyn yn ôl i'r sefydliadau priodol (Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a'r Comisiwn Ewropeaidd) i alluogi i hyn

gael ei ystyried wrth baratoi ar gyfer rhaglenni'r dyfodol ar ôl 2013

- Adolygu pa mor berthnasol yw'r gyfranogaeth o ran cyflawni strategaethau perthnasol Llywodraeth Cymru

Materion i'w hystyried

Mae'r Pwyllgor yn croesawu sylwadau ar bob agwedd ar y pwnc hwn. Fodd bynnag, efallai yr hoffech gyfeirio at y materion a ganlyn wrth lunio eich ymateb:

- Lefel cyfranogiad Cymru yn y tair rhaglen, yn cynnwys cymariaethau â chfnodau rhaglenni blaenorol (e.e. FP6/FP5).
- Cael dealltwriaeth o natur y cyfranogiad – natur y sefydliadau, y gwasgariad daearyddol, unrhyw Gronni sectorau penodol.
- Cymharu cyfranogiad sefydliadau o Gymru â rhannau eraill o'r UE ac o ran cyfartaledd y DU a'r UE
- Amlygu enghreifftiau llwyddiannus o Gymru sy'n deillio o'r cyfranogi yn y rhaglenni hyn, yn ogystal ag unrhyw feysydd neu fannau arbennig lle y gwelir arbenigedd Cymru ar waith
- Manteision tybiedig y cyfranogiad yn yr amrywiol raglenni i'r rhai sy'n cyfranogi, yn cynnwys unrhyw effeithiau neu fanteision tymor hir i Gymru sy'n deillio o'r mentrau
- Nodi unrhyw heriau/rwystrau penodol o ran cyfranogi
- Nodi i ba raddau y mae cyfranogi mewn cronfeydd strwythurol wedi hwyluso cyfranogi mewn rhaglenni eraill yr UE
- Mannau cyfyng yn y broses, er enghraifft o ran cyllid neu adennill gorbenion prifysgolion, 'matchmaking' gyda chwmnïau neu sefydliadau o aelod-wladwriaethau eraill
- Adolygu gwerth pob cefnogaeth a ddarperir i ymgeiswyr llwyddiannus yng Nghymru/y DU – neu i'w partneriaid wrth ddatblygu cynigion ar gyfer prosiectau.
- Pa mor berthnasol yw'r cyd-destun polisi yng Nghymru i'r mentrau a gefnogir, yn cynnwys Rhaglen Adnewyddu'r Economi, ac 'Er Mwyn ein Dyfodol'
- Argymhellion polisi o ran rhaglenni'r dyfodol ar ôl 2013

Sut i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig

Dylech gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i Clerc y Pwyllgor, a dylai gyrraedd erbyn **dydd Gwener 12 Tachwedd 2010**. Os yn bosibl, anfonwch fersiwn electronig, un ai ar ffurf MS Word neu Rich Text, a hynny un ai ar neges e-bost at Europe.comm@wales.gov.uk neu ar ddisg.

Os nad yw hyn yn bosibl, anfonwch eich tystiolaeth ysgrifenedig at:
Clerc y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, CF99 1NA.

Mae Atodiad A yn cynnwys rhagor o wybodaeth am gyflwyno tystiolaeth.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech anfon copi o'r llythyr hwn at unrhyw rai eraill a allai fod â diddordeb yn y pwnc, neu at unrhyw un o'ch aelod-sefydliadau.

Aelodau'r Pwyllgor:

Rhodri Morgan AC (Cadeirydd); Nick Bourne AC; Eleanor Burnham AC; Jeff Cuthbert AC; Rhodri Glyn Thomas AC.

4 Hydref 2010

Atodiad A - Cyngor ar gyflwyno tystiolaeth

Gall y Pwyllgor alw ar y rhai sydd wedi cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor hefyd. A fydddech cystal â nodi yn eich ymateb a fydddech yn barod i roi tystiolaeth lafar?

Dylai tystion fod yn ymwybodol y caiff tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynir i'r Pwyllgor ei thrin fel eiddo'r Pwyllgor. Bydd tystiolaeth ysgrifenedig yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Pwyllgor, a gellir cynnwys darnau o'r dystiolaeth yn adroddiad y Pwyllgor.

Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi unrhyw wybodaeth a ystyrir yn ddata personol. Os ydych yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, dylech nodi'n glir pa rannau na ddylid eu datgelu, ynghyd â'ch rhesymau dros atal y deunydd dan sylw. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Os ceir cais am wybodaeth a gyflwynwyd o dan ddeddfwriaeth y Deyrnas Unedig, efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth y byddwch yn ei darparu. Gall hyn gynnwys gwybodaeth sydd yn y gorffennol wedi'i dileu gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.